
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 755 (Cy.90)

**CYRFF CYHOEDDUS
DIOGELU'R AMGYLCHEDD
COEDWIGAETH
CEFN GWLAD**

**Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol
Cymru (Swyddogaethau) 2013**

Gwnaed - - - - 25 Mawrth 2013
Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 13, 14, 15 a 35 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011(1) (“y Ddeddf”).

O ran y Gorchymyn hwn, yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn—

- (a) ei fod yn ateb diben gwella'r broses o arfer swyddogaethau cyhoeddus, o roi sylw i'r ffactorau a nodir yn adran 16 o'r Ddeddf; a
- (b) nad yw'n dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol nac yn atal neb rhag parhau i arfer unrhyw hawl neu ryddid y gallai'r person hwnnw ddisgwyl yn rhesymol barhau i'w harfer neu i'w arfer.

Mae cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog wedi ei sicrhau yn unol ag adran 17 o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn, a dogfen esboniadol sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 19(2) o'r Ddeddf, wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 19(1) ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeng wythnos a grybwyllir yn adran 19(3).

Yn unol ag adran 19(6) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed yn ystod y cyfnod o 60 niwrnod o ran y Gorchymyn drafft.

Yn unol ag adran 19(8) o'r Ddeddf, mae drafft diwygiedig o'r Gorchymyn hwn, a datganiad yn rhoi crynodeb o'r newidiadau arfaethedig, wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod ddod i ben.

Mae'r drafft diwygiedig o'r Gorchymyn hwn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 19(9) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a rhychwant

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

(3) Mae i ddiwygiad, diddymiad neu ddirymiad a wneir gan y Gorchymyn hwn yr un rhychwant â'r ddarpariaeth y mae'n ymwneud â hi.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Corff” (“*the Body*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(2);

ystyr “Deddf 1995” (“*the 1995 Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd 1995(3);

ystyr “deddfiad lleol” (“*local enactment*”) yw unrhyw Ddeddf leol neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf leol neu yn rhinwedd Deddf leol;

ystyr “y Gorchymyn Sefydlu” (“*the Establishment Order*”) yw Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(4).

Swyddogaethau cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru

3. Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau i'r Gorchymyn Sefydlu.

Addasu a throsglwyddo swyddogaethau, darpariaethau canlyniadol a darpariaethau eraill

4.—(1) Mae Atodlenni 2 a 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd—

(a) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau datganoledig Cymreig Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff ac i Weinidogion Cymru swyddogaethau datganoledig Cymreig y Comisiynwyr Coedwigaeth;

(c) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau CCGC;

(d) yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran yr amgylchedd;

(e) yn gwneud darpariaeth ganlyniadol, atodol a chysylltiedig.

(2) Mae Atodlenni 4, 5 a 6 yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sydd—

(a) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau datganoledig Cymreig Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff ac i Weinidogion Cymru swyddogaethau datganoledig Cymreig y Comisiynwyr Coedwigaeth;

(c) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau CCGC;

(d) yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran yr amgylchedd;

(e) yn gwneud darpariaeth ganlyniadol, atodol a chysylltiedig.

(2) 1990 p. 43.

(3) 1995 p. 25.

(4) O.S. 2012/1903 (Cy. 230).

Addasiadau eraill i ddeddfiadau

5. Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at CCGC (sut bynnag y'i mynegir), ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at CCGC, i'w drin fel cyfeiriad at y Corff.

6. Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at y Comisiynwyr Coedwigaeth (sut bynnag y'i mynegir) ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiynwyr Coedwigaeth, i'w drin o ran Cymru fel cyfeiriad at y Corff.

7. Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, heblaw deddfiad sy'n ymwneud â mordwyo, mae unrhyw gyfeiriad at Asiantaeth yr Amgylchedd (sut bynnag y'i mynegir) ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at Asiantaeth yr Amgylchedd, i'w drin o ran Cymru fel cyfeiriad at y Corff.

Dileu Cyngor Cefn Gwlad Cymru

8.—(1) Mae CCGC wedi ei ddileu.

(2) Gan hynny, mae'r canlynol wedi eu diddymu—

(a) adrannau 128 i 134 o Ddeddf 1990(5);

(b) Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990(6);

(c) Rhan 1 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(7).

Dileu pwyllgorau ymgynghorol

9.—(1) Mae'r canlynol wedi eu dileu—

(a) Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd a sefydlwyd yn unol ag adran 12(6) o Ddeddf 1995;

(b) y pwyllgor ymgynghorol pysgodfeydd rhanbarthol a lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 13(5) o Ddeddf 1995.

(2) Gan hynny, mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 1995 wedi eu diddymu—

(a) adran 12(8);

(b) adran 13(9);

(c) Atodlen 3;

(d) paragraff 3 o Atodlen 23.

(5) 1990 p. 43. Diwygiwyd adran 130 gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37), Atodlen 15, paragraff 11. Amnewidiwyd adrannau 128 a 129, diwygiwyd adrannau 130, 131, 132 a 134, a diddymwyd adran 133 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 117 i 123. Gwnaed diwygiadau pellach i adrannau 128, 132 a 134 gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), adran 313.

(6) Cafwyd nifer o ddiwygiadau i Atodlenni 6, 8 a 9. Diwygiwyd yr Atodlenni hynny, a diddymwyd Atodlen 7, gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 126 a 127, ac Atodlen 12. O ran darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed mewn cysylltiad â diddymu Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990, gweler Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

(7) 1949 p. 97. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf 1990, Atodlen 8, paragraff 1(2). Diwygiwyd adrannau 1 a 3 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Atodlen 11, paragraffau 7 ac 8. Diddymwyd adrannau 2 a 4 gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69), Atodlen 17, Rhan 2.

(8) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 12 o Ddeddf 1995 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd) 2012 (O.S. 2012/2407).

(9) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 13 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol a Lleol) 2012 (O.S. 2012/2406).

Darpariaethau trosiannol ac arbedion

10. Mae Atodlen 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion.

25 Mawrth 2013

Alun Davies
Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o
Weinidogion Cymru

ATODLEN 1

Erthygl 3

SWYDDOGAETHAU CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

1. Mae'r Gorchymyn Sefydlu wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
2. Yn lle erthygl 2 rhodder—
 - “2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cadwraeth natur” (“*nature conservation*”) yw cadwraeth fflora, ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol;

mae i “y Corff” (“*the Body*”) yr ystyr a roddir gan erthygl 3(1);

mae i “parth Cymru” yr ystyr a roddir i “the Welsh zone” gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(10).

mae i “swyddogaethau rheoli llygredd” yr un ystyr ag sydd i “pollution control functions” yn adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(11).”
3. Yn erthygl 4(3), hepgorer “(fel y diffinnir “Welsh zone” yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)”.
4. Ar ôl erthygl 5 mewnosoder—

“Dyletswyddau cadwraeth natur

5A.—(1) Rhaid i'r Corff arfer ei swyddogaethau mewn modd sy'n hybu cadwraeth natur a chadwraeth a gwelliant harddwch naturiol ac amwynder.

(2) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) yn gymwys i swyddogaethau rheoli llygredd y Corff nac i'w swyddogaethau o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967.

(3) Wrth arfer ei swyddogaethau rheoli llygredd, rhaid i'r Corff roi sylw i ba mor ddymunol yw cadwraeth natur a chadwraeth a gwelliant harddwch naturiol ac amwynder.

(4) Mae adran 1(3A) o Ddeddf Coedwigaeth 1967(12) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cydbwysedd rhwng cadwraeth natur a materion eraill y mae'n rhaid i'r Corff ymdrechu i'w cyflawni wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

5B Wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur, rhaid i'r Corff roi sylw i newidiadau ecolegol gwirioneddol neu bosibl.

Dyletswyddau mynediad a hamdden

5C.—(1) Rhaid i'r Corff arfer ei swyddogaethau mewn modd sy'n hyrwyddo darpariaeth a gwelliant cyfleoedd—

(a) i fynd i gefn gwlad a mannau agored a'u mwynhau;

(b) at hamdden awyr agored; ac

(c) i astudio, deall a mwynhau'r amgylchedd naturiol.

(2) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) yn gymwys i swyddogaethau rheoli llygredd y Corff.

(10) 2006 p. 32. Mewnosodwyd y diffiniad o'r “Welsh zone” gan adran 43(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23). *Gweler* hefyd Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).

(11) 1995 p. 25. Diwygiwyd y diffiniad o “pollution control functions” yn adran 5(5) gan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p. 24), Atodlen 2, paragraffau 14 a 15; a chan Reoliadau Hawlenni Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675), Atodlen 26, paragraff 13(1) a (2). Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau pellach i adran 5.

(12) 1967 p. 10. Mewnosodwyd adran 1(3A) gan adran 4 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1985 (p. 31).

(3) Wrth arfer ei swyddogaethau rheoli llygredd, rhaid i'r Corff roi sylw i ba mor ddymunol yw parhau i sicrhau bod cyfleoedd presennol o'r mathau a grybwyllir ym mharagraff (1) ar gael i'r cyhoedd.

(4) Mae adran 2 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(13) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch dyletswyddau'r Corff sy'n ymwneud â chyfleusterau ar gyfer mwynhau cefn gwlad, cadwraeth a gwelliant harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad, a mynediad y cyhoedd i gefn gwlad at hamdden.

Dyletswyddau o ran safleoedd hanesyddol

5D Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Corff roi sylw i'r canlynol—

- (a) pa mor ddymunol yw gwarchod a chadw adeiladau, adeileddau, safleoedd a gwrthrychau o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol, peirianegol neu hanesyddol;
- (b) pa mor ddymunol yw sicrhau bod unrhyw gyfleuster at ymweld ag unrhyw adeilad, adeiledd, safle neu wrthrych o'r fath neu eu harolygu yn parhau ar gael i'r cyhoedd, i'r graddau y mae'n gyson ag is-baragraff (a) ac erthygl 5A.

Dyletswyddau o ran llesiant

5E Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Corff roi sylw i'r canlynol—

- (a) iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau;
- (b) llesiant economaidd unigolion, busnesau a chymunedau.

Dyletswyddau Gweinidogion Cymru o ran cynigion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Corff

5F.—(1) Mae'r dyletswyddau yn erthyglau 5A i 5E yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt lunio neu ystyried unrhyw gynigion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Corff, fel y maent yn gymwys i'r Corff wrth iddo arfer y swyddogaethau hynny.

(2) Ond nid yw'r ddyletswydd yn erthygl 5A(1) yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt lunio neu ystyried cynigion o'r fath ond i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn gyson â'r canlynol—

- (a) yr amcan o sicrhau datblygu cynaliadwy; a
- (b) dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(14).

Hamdden o ran dŵr a thir cysylltiedig

5G.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo gan y Corff hawliau i ddefnyddio dŵr neu dir sy'n gysylltiedig â dŵr.

(2) Rhaid i'r Corff gymryd camau priodol i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu harfer mewn modd sy'n sicrhau bod y dŵr neu'r tir—

- (a) ar gael at ddibenion hamdden; a
- (b) ar gael yn y modd gorau.

(13) 1968 p. 41. Cafwyd nifer o ddiwygiadau i adran 2, gan gynnwys y rhai a wnaed gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraff 43. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau pellach i adran 2.

(14) 1991 p. 56. Cafwyd diwygiadau i adran 2, gan gynnwys yn benodol y rhai a wnaed gan Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37), adran 39.

- (3) Ym mharagraff (2), ystyr “camau priodol” (“*appropriate steps*”) yw camau—
- (a) sy'n rhesymol ymarferol; a
 - (b) sy'n gyson â darpariaethau unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Corff.

(4) Rhaid i'r Corff sicrhau cydsyniad unrhyw awdurdod mordwyo, awdurdod harbwr neu awdurdod cadwraeth cyn gwneud dim o dan baragraff (1) sy'n peri rhwystr i'r mordwyo sydd o dan reolaeth yr awdurdod hwnnw, neu ymyrraeth arall â'r mordwyo hwnnw.

(5) Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(15) yn gwneud darpariaeth gyffredinol bellach ynghylch swyddogaethau'r Corff o ran dŵr.

Darparu cyfleusterau at hamdden a dibenion eraill

5H.—(1) Caiff y Corff ddarparu, neu wneud trefniadau i ddarparu, cyfleusterau at y dibenion a bennir ym mharagraff (2) ar unrhyw dir sy'n perthyn iddo, y mae'n ei ddefnyddio neu'n ei reoli, neu a drefnir at ei ddefnydd gan Weinidogion Cymru.

- (2) Dyma'r dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—
- (a) twristiaeth a mwynhau cefn gwlad a mannau agored;
 - (b) hamdden a chwaraeon;
 - (c) astudio, deall a mwynhau'r amgylchedd naturiol.
- (3) Ym mharagraff (1), mae “cyfleusterau” (“*facilities*”) yn cynnwys, heb gyfyngiad—
- (a) llety i ymwelwyr, safleoedd gwerysyla a safleoedd carafannau;
 - (b) safleoedd picnic a mannau ar gyfer prydau a lluniaeth;
 - (c) mannau i fwynhau golygfeydd a mannau parcio;
 - (d) llwybrau ar gyfer cerdded, beicio neu astudio'r amgylchedd naturiol;
 - (e) canolfannau addysg, canolfannau arddangos a gwybodaeth;
 - (f) siopau mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r cyfleusterau a grybwyllwyd ym mharagraffau (a) i (e);
 - (g) cyfleusterau cyhoeddus.

5I Mae pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 39 o Ddeddf Coedwigaeth 1967(16) i gaffael tir yn cynnwys pŵer i gaffael tir yn agos at dir sydd wedi ei drefnu ganddynt at ddefnydd y Corff yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf honno pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y tir y bwriedir ei gaffael yn ofynnol yn rhesymol er mwyn darparu'r cyfleusterau a grybwyllwyd yn erthygl 5H.

5J Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfau o dan adran 46 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn cynnwys pŵer i wneud is-ddeddfau—

- (a) i reoleiddio defnyddio rhesymol ar gyfleusterau a ddarperir o dan erthygl 5H, a
- (b) o ran unrhyw fater a ddisgrifir yn adran 41(3) o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(17).”

5. Hefgorer erthyglau 6 a 7.

(15) 1995 p. 25. Mae diwygiadau i adran 6 sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn wedi eu gwneud gan Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37), adran 72; Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr (Cymru a Lloegr) 2009 (O.S. 2009/463), Atodlen 2, paragraff 9(b); Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), adran 230; a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29), Atodlen 2, paragraffau 51 a 52. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau pellach i adran 6.

(16) 1967 p. 10. Gwnaed diwygiadau i adran 39 sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn gan Orchymyn Deddf yr Alban (Awdurdodau Cyhoeddus Trawsffiniol) (Addasu Swyddogaethau etc.) 1999 (O.S. 1999/1747), Atodlen 12, paragraff 4(1) a (28) i (31).

(17) 1968 p. 41. Cafwyd diwygiadau i ddarpariaethau eraill yn adran 41.

6.—(1) Mae erthygl 8 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3), yn lle “Mae'r dyletswyddau ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys oni bai, neu i'r graddau, ei bod yn afresymol” rhodder “Nid yw'r dyletswyddau ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys os yw'n afresymol, neu i'r graddau y mae'n afresymol”.

(3) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) At ddibenion yr erthygl hon, mae costau yn cynnwys costau—

(a) i unrhyw berson; a

(b) i'r amgylchedd.”

7. Ar ôl erthygl 8 mewnosoder—

“Cydweithredu ag Asiantaeth yr Amgylchedd

8A Rhaid i'r Corff gydweithredu ag Asiantaeth yr Amgylchedd, a chydlynu ei weithgareddau yntau â gweithgareddau Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.”

8.—(1) Mae erthygl 9(2) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (c), ar ôl “ffurfio” mewnosoder “neu gymryd rhan wrth ffurfio”.

(3) Ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

“(da) gweithredu, neu benodi person i weithredu, fel swyddog i gorff corfforaethol neu fel ymddiriedolwr i ymddiriedolaeth elusennol;”.

(4) Yn is-baragraff (e), ar ôl “rhoddion” mewnosoder “neu gyfraniadau”.

9. Ar ôl erthygl 9 mewnosoder—

“Pŵer i ymrwymo i gytundebau ag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus

9A.—(1) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd y pwerau a roddir gan erthygl 9, mae'r Corff i'w drin fel awdurdod lleol ac fel corff cyhoeddus at ddibenion darpariaethau Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970(18), ac eithrio adran 2(2).

(2) Ond ni chaiff y Corff, o dan adran 1 o'r Ddeddf honno, wneud trefniadau a allai gael eu gwneud o dan adran 28(1) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011(19).”

10.—(1) Mae erthygl 10 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1).

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(2) Caiff y Corff gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch datblygu a gweithredu polisiau ar gyfer unrhyw fater neu mewn perthynas ag unrhyw fater y mae'r Corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef, p'un a ofynnwyd iddo wneud hynny neu beidio.”

11. Ar ôl erthygl 10 mewnosoder—

“Cyngor a chymorth i eraill

10A.—(1) Caiff y Corff roi cyngor neu gymorth, gan gynnwys cyfleusterau hyfforddi, i unrhyw berson ar unrhyw fater y mae gan y Corff wybodaeth, sgiliau neu brofiad ynddo.

(18) 1970 p. 39. Cafwyd diwygiadau i'r Ddeddf nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(19) 2011 p. 24.

(2) Rhaid i'r pŵer a roddir gan baragraff (1) beidio â chael ei arfer pan fo'r person y rhoddir y cyngor neu'r cymorth iddo y tu allan i Gymru, ac eithrio—

- (a) yn unol â phŵer neu ddyletswydd a roddir neu a osodir gan y deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall;
- (b) â chydysyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru; neu
- (c) yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru osod amodau wrth roi cydsyniad neu wrth gymeradwyo trefniadau o dan baragraff (2).

Cymorth ariannol

10B.—(1) Caiff y Corff roi cymorth ariannol i unrhyw berson mewn perthynas ag unrhyw wariant a ysgwyddwyd neu a ysgwyddir gan y person hwnnw wrth wneud unrhyw beth y mae'r Corff o'r farn ei fod yn gydnaws â chyrraedd unrhyw amcan y mae'r Corff yn ceisio ei gyrraedd wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Caiff y Corff roi cymorth ariannol o dan yr erthygl hon ar ffurf grant neu fenthyciad (neu yn rhannol yn y naill ffordd ac yn rhannol yn y llall).

(3) Caiff y Corff osod amodau ar gymorth ariannol o dan yr erthygl hon, a all gynnwys (heb gyfyngiad) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfan neu ran o unrhyw grant gael ei ad-dalu neu ei had-dalu o dan amgylchiadau penodedig.

(4) Rhaid i'r Corff arfer y pŵer ym mharagraff (3) mewn modd sy'n sicrhau bod unrhyw berson sy'n cael cymorth ariannol mewn perthynas â mangre y mae'r cyhoedd i'w dderbyn iddi (am dâl neu fel arall) yn gwneud darpariaeth briodol at anghenion aelodau o'r cyhoedd sydd ag anabledau.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr “darpariaeth briodol” (“*appropriate provision*”) yw unrhyw ddarpariaeth ar gyfer—

- (a) mynedfeydd i'r fangre neu ynddi; a
- (b) y cyfleusterau parcio a'r cyfleusterau glanweithiol sydd i fod ar gael (os oes rhai i fod ar gael),

sy'n ymarferol ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(6) Dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru (sef cydsyniad a all fod yn benodol neu'n gyffredinol) neu yn unol â threfniadau a gymeradwyir ganddynt y caiff y Corff roi cymorth ariannol o dan yr erthygl hon.

Ymchwil

10C.—(1) Rhaid i'r Corff wneud trefniadau i gyflawni gweithgareddau ymchwil mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i unrhyw rai o'i swyddogaethau.

(2) Caiff y Corff—

- (a) cyflawni gweithgareddau ymchwil ei hun neu ar y cyd â phersonau eraill;
- (b) comisiynu neu gefnogi gweithgareddau ymchwil (boed drwy gyfrwng arian neu fel arall).

(3) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr erthygl hon mewn perthynas ag ymchwil ar gadwraeth natur, rhaid i'r Corff roi sylw i unrhyw safonau cyffredin a sefydlwyd o dan adran 34(2)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006(20).

(4) Yn yr erthygl hon—

- (a) ystyr “gweithgareddau ymchwil” (“research activities”) yw gweithgareddau ymchwil a gweithgareddau perthynol;
- (b) mae “gweithgareddau cysylltiedig” (“related activities”) yn cynnwys, heb gyfyngiad, gwneud arbrofion ac ymholiadau a chasglu ystadegau a gwybodaeth.

Darpariaeth bellach ynghylch cyngor, cymorth ac ymchwil

10D Mae'r swyddogaethau a roddir gan erthyglau 10 i 10C yn arferadwy o ran Cymru a pharth Cymru.

Achosion troseddol

10E.—(1) Caiff y Corff ddwyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr.

(2) Caiff y Corff awdurdodi personau i erlyn ar ei ran mewn achosion gerbron llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr.

(3) Mae gan berson a awdurdodwyd felly hawl i erlyn mewn achosion o'r fath er nad yw'r person hwnnw'n fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr.”

12. Yn erthygl 11, yn lle paragraffau (2) i (4) rhodder—

“(2) Caniateir i'r pŵer ym mharagraff (1) gael ei arfer hefyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cyfarwyddo'r Corff o ran arfer ei swyddogaethau trosglwyddedig perthnasol—

(a) os byddai'r cyfarwyddyd yn cael unrhyw effaith yn Lloegr; neu

(b) os yw'r cyfarwyddyd yn ymwneud â rheoli adnoddau dŵr, cyflenwi dŵr, afonydd neu gysiau dŵr eraill, rheoli llygredd mewn adnoddau dŵr, carthffosiaeth neu ddraenio tir, ac y byddai iddo unrhyw effaith yn nalgylchoedd afonydd Dyfrdwy, Gwy a Hafren.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r Corff i weithredu unrhyw rwymedigaeth UE neu rwymedigaeth ryngwladol sydd gan y Deyrnas Unedig.

(4) Ac eithrio mewn argyfwng, dim ond ar ôl ymgynghori â'r Corff y caniateir arfer y pŵer i roi cyfarwyddyd o dan yr erthygl hon.

(5) Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n dod o fewn paragraff (2).

(6) Dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd o dan yr erthygl hon.

(7) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddiadau i'r Corff o dan unrhyw ddeddfiad arall heb ragfarn i'w pwerau i roi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

(8) Yn yr erthygl hon, ystyr “swyddogaethau trosglwyddedig perthnasol” (“*relevant transferred functions*”) yw unrhyw swyddogaethau—

(a) a oedd yn arferadwy gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn 1 Ebrill 2013; a

(b) sy'n swyddogaethau i'r Corff yn rhinwedd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013,

ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (9).

(9) At ddibenion y diffiniad o “swyddogaethau trosglwyddedig perthnasol” (“*relevant transferred functions*”)—

- (a) yr oedd swyddogaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd yn arferadwy cyn 1 Ebrill 2013 p'un a oedd y deddfiad sy'n ei rhoi wedi dod i rym cyn y dyddiad hwnnw neu beidio; ond
- (b) dim ond pan fydd y deddfiad sy'n rhoi'r swyddogaeth wedi dod i rym y bydd swyddogaeth yn swyddogaeth drosglwyddedig berthnasol.”

13. Ar ôl erthygl 11 mewnosoder—

“Darpariaethau pellach ynghylch cyfarwyddiadau

11A.—(1) Rhaid i gyfarwyddyd o dan erthygl 11 fod yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl y digwydd) gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff—

- (a) o dan erthygl 11;
- (b) o dan unrhyw ddeddfiad arall er mwyn gweithredu unrhyw rwymedigaeth UE neu rwymedigaeth ryngwladol sydd gan y Deyrnas Unedig,

cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r cyfarwyddyd, a rhaid iddynt drefnu bod copïau ar gael os gwneir cais amdanynt.

(3) Mae'r pŵer i roi cyfarwyddiadau o dan erthygl 11 yn cynnwys pŵer i amrywio'r cyfarwyddiadau neu eu dirymu.

(4) Os bydd Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amrywio neu'n dirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff er mwyn gweithredu unrhyw rwymedigaeth UE sydd gan y Deyrnas Unedig (boed o dan erthygl 11 ynteu o dan unrhyw ddeddfiad arall), rhaid iddynt—

- (a) cyhoeddi'r amrywiad neu'r dirymiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- (b) trefnu bod copïau o'r amrywiad neu'r dirymiad ar gael os gwneir cais amdanynt.

(5) Rhaid i'r Corff ac unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau'r Corff gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff o dan erthygl 11 neu unrhyw ddeddfiad arall.

(6) Wrth benderfynu—

- (a) ar unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad gan y Corff, neu atgyfeiriad neu adolygiad ar benderfyniad gan y Corff, neu
- (b) ar unrhyw gais a drosglwyddir o'r Corff,

mae'r person sy'n gwneud y penderfyniad wedi ei rwymo gan unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11 neu unrhyw ddeddfiad arall i'r un graddau â'r Corff.”

14. Ar ddiwedd erthygl 12 mewnosoder—

“(3) Mae'r amodau y caniateir eu gosod yn cynnwys, heb gyfyngiad, amodau o ran defnyddio'r arian at ddibenion y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.”

15. Ar ôl erthygl 12 mewnosoder—

“Pŵer i godi tâl

12A.—(1) Caiff y Corff—

- (a) codi tâl am y gwaith y mae'n ei wneud ac am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau y mae'n eu darparu;
- (b) caniatáu i berson arall godi taliadau, ar unrhyw delerau sy'n addas ym marn y Corff, am gyfleusterau y mae'r person hwnnw yn eu darparu o dan drefniadau a wnaed o dan erthygl 5H.

(2) Caiff unrhyw drefniant rhwng y Corff a pherson arall a wneir yn unol â pharagraff (1), â chydysniad Gweinidogion Cymru, gynnwys darpariaeth ynglŷn â rhannu elw.

(3) Mae'r pwerau a roddir gan yr erthygl hon yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad penodol ar godi tâl gan y Corff mewn achosion penodol neu gategoriâu o achos a gynhwysir yn y deddfiad hwn neu mewn unrhyw ddeddfiad arall.”

16. Ar ddiwedd erthygl 13 mewnosoder—

“(8) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i adran 118 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(21).”

17. Ar ôl erthygl 13 mewnosoder—

“Incwm o goedwigaeth

13A.—(1) Rhaid i'r Corff wario pob swm y mae'n ei gael am werthu neu am waredu mewn modd arall goed neu gynhyrchion coedwigaeth eraill ar arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â choedwigaeth, fforestydd, coedwigoedd a diwydiannau coetir.

(2) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad neu gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 13.”

18. Ar ôl erthygl 15 mewnosoder—

“RHAN 4 —

GWYBODAETH AM BENDERFYNIADAU YNGHYLCH HAWLENNI

Dehongli

16. Yn y Rhan hon—

ystyr “hawlen” (“*permit*”) yw unrhyw gofrestrriad, esemptiad, cymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, cydsyniad, cydnabyddiaeth neu awdurdodiad arall, sut bynnag y'i disgrifir;

ystyr “penderfyniad ynghylch hawlenni” (“*permitting decision*”) yw unrhyw benderfyniad—

- (a) i roi neu i wrthod cais am hawlen;
- (b) i atal, amrywio neu ddirymu hawlen.

Cynlluniau cyhoeddi gwybodaeth

17.—(1) Rhaid i'r Corff—

- (a) datblygu, mabwysiadu a chynnal cynllun (y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel “cynllun cyhoeddi”) ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth am y canlynol—
 - (i) ceisiadau am hawlenni a wneir i'r Corff; a
 - (ii) penderfyniadau ynghylch hawlenni a wneir gan y Corff;
- (b) cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddi;
- (c) adolygu ei gynllun cyhoeddi o dro i dro.

(21) 1991 p. 57. Diwygiwyd adran 118 gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), Atodlen 22, paragraffau 128 a 150; a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29), Atodlen 2, paragraffau 40 a 43. Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau pellach i adran 118.

- (2) Rhaid i gynllun cyhoeddi—
 - (a) pennu dosbarthiadau o wybodaeth y mae'r Corff yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi, y mae'n rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth am bob cais am hawlen a wneir gan y Corff mewn achosion lle mae'r Corff yn gyfrifol am benderfynu ar y cais;
 - (b) pennu ym mha fodd y cyhoeddir, neu y bwriedir cyhoeddi, yr wybodaeth ym mhob dosbarth, ac o fewn pa gyfnod amser;
 - (c) pennu a yw'r deunyddiau ar gael, neu a fwriedir iddynt fod ar gael, i'r cyhoedd yn ddi-dâl.
- (3) Wrth ddatblygu, mabwysiadu neu adolygu cynllun cyhoeddi, rhaid i'r Corff—
 - (a) ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol;
 - (b) rhoi sylw i'r buddiant cyhoeddus yn y canlynol—
 - (i) caniatáu i'r cyhoedd fynediad at wybodaeth sydd gan y Corff; a
 - (ii) cyhoeddi gwybodaeth am geisiadau am hawlenni a wnaed i'r Corff a phenderfyniadau ynghylch hawlenni a wnaed gan y Corff.
- (4) Rhaid i gynllun cyhoeddi gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
- (5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwrthod cymeradwyo cynllun cyhoeddi arfaethedig rhaid iddynt roi datganiad o'u rhesymau dros wrthod gwneud hynny i'r Corff.
- (6) Rhaid i'r Corff gyhoeddi ei gynllun cyhoeddi ar ei wefan a threfnu bod copïau o'r cynllun ar gael os gwneir cais amdanynt.
- (7) Mae'r erthygl hon heb ragfarn i unrhyw bŵer neu ddyletswydd arall sydd gan y Corff i gyhoeddi gwybodaeth neu i'w datgelu.

Hysbysiadau i Weinidogion Cymru ynghylch hunan-ganiatáu hawlenni

- 18.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw gais am hawlen y mae'r cyfan o'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef—
- (a) y Corff yw'r ymgeisydd;
 - (b) y Corff sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cais;
 - (c) y caniateir i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i'r cais gael ei gyfeirio atynt hwy i gael ei benderfynu.
- (2) Rhaid i'r Corff hysbysu Gweinidogion Cymru am y cais ar yr adeg pan fydd yn gwneud y cais.”

19.—(1) Mae'r Atodlen wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff 1 mewnosoder—

“Dehongli

A1. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at gyflogeion i'r Corff yn cynnwys personau a secondiwyd i'r Corff.”

(3) Ym mharagraff 1(2), yn lle “Nid” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraff 1A, nid”.

(4) Ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

“Statws o ran gwarchodfeydd natur

1A.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i dir y mae gan y Corff fuddiant ynddo ac sy'n cael ei reoli fel gwarchodfa natur.

(2) At ddibenion cymhwyso unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol at y tir, mae'r Corff i'w drin fel adran o'r llywodraeth.

(3) Mae buddiant mewn tir yn cynnwys unrhyw ystâd mewn tir ac unrhyw hawl dros dir, p'un a yw'r hawl yn arferadwy yn rhinwedd y berchnogaeth ar fuddiant yn y tir ynteu yn rhinwedd trwydded neu gytundeb.”

(5) Ym mharagraff 2(1)(d), hepgorer “llai na 2 na dim”.

(6) Hefgorer paragraffau 3 a 4.

(7) Ym mharagraff 5, yn lle “baragraff 4(3) (pan fo'n gymwys) a pharagraffau” rhodder “baragraffau”.

ATODLEN 2

Erthygl 4(1)

DEDDFAU SENEDDOL

RHAN 1

Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus

Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p. 49)

1. Yn adran 343(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936, yn y diffiniad o “land drainage authority”, yn lle'r geiriau o “means” hyd at “an” rhodder “means the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or an”.

Deddf Ystadegau Masnach 1947 (p. 39)

2.—(1) Mae adran 9A o Ddeddf Ystadegau Masnach 1947 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)—

(a) ym mharagraff (a), ar ôl “the Environment Agency” mewnosoder “, the Natural Resources Body for Wales”;

(b) ym mharagraff (b), yn lle “either of those Agencies authorised by that Agency” rhodder “any of those bodies authorised by that body”.

(3) Yn is-adran (2), yn lle “Agency” rhodder “body”.

Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 (p. 74)

3. Mae Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

4.—(1) Mae adran 2A wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r ddarpariaeth bresennol yn is-adran (1).

(3) Yn is-adran (1)—

(a) ar ddiwedd paragraff (a), hepgorer “and”;

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

- “(b) the Environment Agency, in relation to coastal erosion risks in England, and
- (c) the Natural Resources Body for Wales, in relation to coastal erosion risks in Wales.”

(4) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(2) In this Part, references to the area of a coastal erosion risk management authority are—

- (a) in relation to the Environment Agency, references to England, and
- (b) in relation to the Natural Resources Body for Wales, references to Wales.”

5.—(1) Mae adran 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)—

- (a) yn lle “coast protection authority” rhodder “coastal erosion risk management authority”;
- (b) yn lle “district” rhodder “area”.

(3) Yn is-adran (1B), yn lle “district” rhodder “area”.

(4) Hepgorer is-adran (1C).

6.—(1) Mae adran 5 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adrannau (1A), (3) a (5), yn lle “Environment Agency” rhodder “appropriate agency”.

(3) Yn is-adran (5A)—

- (a) ar ôl “the Environment Agency” mewnosoder “or the Natural Resources Body for Wales”;
- (b) ar ôl “the Agency” mewnosoder “or the Body”.

(4) Yn is-adran (6)(a), yn lle'r geiriau cyn “(in the case of” rhodder “to the appropriate agency”.

7. Yn adran 8(1), yn lle'r geiriau o “carried out, on”, hyd at “(in the case of” rhodder “carried out, on the appropriate agency (in the case of”.

8.—(1) Mae adran 16(4) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau o “and to the” hyd at “and to any” rhodder “and to the appropriate agency and to any”.

(3) Yn lle'r geiriau o “by the” hyd at “by any” rhodder “by the appropriate agency or by any”.

9.—(1) Mae adran 17 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o “that area, to” hyd at “and to any” rhodder “that area, to the appropriate agency and to any”.

(3) Yn is-adran (9), yn lle'r geiriau o “by the” hyd at “or an” rhodder “by the appropriate agency or an”.

10. Yn adran 45(1)(b), yn lle'r geiriau o “including the” hyd at “and an” rhodder “including the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales and an”.

11.—(1) Mae adran 47(c) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraffau (i) a (ii), yn lle'r geiriau o “by the” hyd at “or an” rhodder “by the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or an”.

(3) Yn y geiriau cau—

- (a) yn lle'r geiriau cyn “or the internal drainage board consents” rhodder “unless the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales”;
- (b) yn lle'r geiriau o “on which” hyd at “represented” rhodder “on which the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or the internal drainage board is represented”.

12.—(1) Mae adran 49(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y manau priodol mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

““appropriate agency” means—

- (a) the Environment Agency in relation to work in England;
- (b) the Natural Resources Body for Wales in relation to work in Wales;”;

““England” includes the territorial sea adjacent to England not forming any part of Wales;”;

““Wales” has the meaning given by section 158 of the Government of Wales Act 2006;”.

(3) Yn y diffiniad o “drainage authority”, yn lle'r geiriau o “means” hyd at “or” rhodder “means the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or”.

13.—(1) Yn Atodlen 1, mae paragraff 1 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (b), hepgorer y geiriau cyn “on any”.

(3) Ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(ba) on the Environment Agency if any part of the area affected by the order is in England, and on the Natural Resources Body for Wales if any part of the area affected by the order is in Wales;”.

14.—(1) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2, yn lle'r geiriau o “notice on” hyd at “catchment board” rhodder “notice on the Environment Agency (if any land to which the draft order relates is in England), the Natural Resources Body for Wales (if any land to which the draft order relates is in Wales), and on any catchment board”.

(3) Ym mharagraff 12, yn lle'r geiriau o “notice on” hyd at “catchment board” rhodder “notice on the Environment Agency (if any land to which the interim order relates is in England), the Natural Resources Body for Wales (if any land to which the interim order relates is in Wales), and on any catchment board”.

Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p. 97)

15. Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

16. Yn adrannau 4A(2) a 15A(1)(c), yn lle “Countryside Council for Wales” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

17. Yn adran 16, yn lle “Council”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

18. Yn adran 21(4), yn lle “Council” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

19. Yn adran 50A(2), yn lle “Countryside Council for Wales” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

20. Yn adran 65(5A), yn lle “Council” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

21. Yn adrannau 85 ac 86A, yn lle “Council”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (gan gynnwys ym mhenawdau'r adrannau hynny), rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

22. Yn adrannau 90(4) a 91(1), yn lle “Council” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

23. Yn adran 99(6), yn lle'r geiriau o “incurred by” hyd at “or an” rhodder “incurred by the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or an”.

24.—(1) Mae adran 114(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer y diffiniad o “the Council”.

(3) Yn lle'r diffiniad o “drainage authority”, rhodder—

““drainage authority” means—

(a) as respects England, the Environment Agency;

(b) as respects Wales, the Natural Resources Body for Wales;

(c) in either case, an internal drainage board.”.

25.—(1) Yn Atodlen 1, mae paragraff 2 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (4), yn lle'r geiriau o “represented” hyd at “or a” rhodder “represented by the Environment Agency (as respects England), the Natural Resources Body for Wales (as respects Wales), or a”.

(3) Yn is-baragraff (5), yn lle “Council” ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

Deddf Glo Brig 1958 (p. 69)

26.—(1) Yn adran 7(8) o Ddeddf Glo Brig 1958, mae'r diffiniad o “statutory water undertakers” wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (i) hepgorer “and Wales”.

(3) Ar ddiwedd is-baragraff (i) hepgorer “and”.

(4) Ar ddiwedd is-baragraff (ii) mewnosoder “and”.

(5) Ar ôl is-baragraff (ii) mewnosoder—

“(iii) in Wales, the Natural Resources Body for Wales, a water undertaker or a sewerage undertaker.”

Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961 (p. 64)

27.—(1) Mae adran 54(4) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau o “by the” hyd at “or any” rhodder “by the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or any”.

(3) Yn lle'r geiriau o “with that” hyd at “that board” rhodder “with that Agency, Body or board (as the case may be)”.

Deddf Piblinellau 1962 (p. 58)

28. Yn adran 66(1) o Ddeddf Piblinellau 1962, yn y diffiniad o “statutory water undertakers”, yn lle'r geiriau o “means” hyd at “or” rhodder “means the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or”.

Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 (p. 14)

29.—(1) Mae adran 29 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

- (a) yn lle “Forestry Commissioners” rhodder “appropriate authority”;
- (b) yn lle “those Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “the appropriate authority”;
- (c) yn lle “the Commissioners”, yn y lle cyntaf a'r ail le y mae'n digwydd, rhodder “the appropriate authority”.

(3) Yn is-adran (3), yn lle “Forestry Commissioners” rhodder “appropriate authority”.

(4) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(4) In this section “appropriate authority” means—

- (a) in relation to Wales, the Welsh Ministers;
- (b) in all other respects, the Forestry Commissioners.”

Deddf Harbyrau 1964 (p. 40)

30. Mae Deddf Harbyrau 1964 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

31. Yn adran 58, yn lle'r geiriau o “drainage board” hyd at “water” rhodder “drainage board, the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales, a water”.

32. Yn Rhan 1 o Atodlen 3, ym mharagraff 18(4), yn y diffiniad o “the relevant conservation body”, yn lle “the Countryside Council for Wales” rhodder “the Natural Resources Body for Wales”.

Deddf Nwy 1965 (p. 36)

33. Mae Deddf Nwy 1965 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

34. Yn adrannau 8(5) a 9(5), yn lle'r geiriau o “or by” hyd at “it shall” rhodder “, by the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, it shall”.

35.—(1) Mae adran 15 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)(a), yn lle'r geiriau o “or the” hyd at “transporter” rhodder “, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, the gas transporter”.

(3) Yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o “are” hyd at “provide” rhodder “are statutory water undertakers, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, the gas transporter shall, if the statutory water undertakers, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales provide”.

(4) Yn is-adran (4), yn lle'r geiriau o “or the” hyd at “transporter” rhodder “, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, the gas transporter”.

(5) Yn is-adran (10), yn lle'r geiriau o “undertakers” hyd at “or any” rhodder “undertakers, the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or any”.

36.—(1) Mae adran 17(5) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff (a) mewnosoder—

- “(za) for the Environment Agency, if it appears to them that the Environment Agency will or may have duties to discharge, or will or may have to take precautionary or preventive action in any event within paragraphs (a) and (b) of subsection (1), and

- (zb) for the Natural Resources Body for Wales, if it appears to them that the Natural Resources Body for Wales will or may have duties to discharge, or will or may have to take precautionary or preventive action in any such event, and”.
- (3) Ym mharagraff (a)—
 - (a) hepgorer y geiriau cyn “for every”;
 - (b) yn lle “event within paragraphs (a) and (b) of subsection (1) of this section” rhodder “such event”.

37.—(1) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraffau 4(2) a 7(3), yn lle paragraff (bb) rhodder—

“(bb) on the Environment Agency if any part of the storage area or protective area is in England, and on the Natural Resources Body for Wales if any part of either of those areas is in Wales, and”.

(3) Ym mharagraff 12(1), yn lle paragraff (bb) rhodder—

“(bb) on the Environment Agency if any part of the additional land is in England, and on the Natural Resources Body for Wales if any part of that land is in Wales, and”.

(4) Ym mharagraff 16(2), yn lle paragraff (bb) rhodder—

“(bb) on the Environment Agency if any part of the storage area or protective area is in England, and on the Natural Resources Body for Wales if any part of either of those areas is in Wales, and”.

38.—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4—

- (a) yn is-baragraff (1), yn lle'r geiriau o “apply” hyd at “for a” rhodder “apply to the appropriate agency for a”;
- (b) yn is-baragraff (2), yn lle'r geiriau o “made” hyd at “shall” rhodder “made, the appropriate agency shall”;
- (c) yn is-baragraff (3), yn lle'r geiriau o “of the” hyd at “statutory” rhodder “of the appropriate agency, a statutory”;
- (d) yn is-baragraff (4), yn lle'r geiriau cyn “shall” rhodder “On issuing the certificate, the appropriate agency”.

(3) Ym mharagraff 5—

- (a) yn is-baragraff (1), yn lle'r geiriau cyn “has issued” rhodder “Where the appropriate agency”;
- (b) yn is-baragraff (3), yn lle'r geiriau o “and to the” hyd at “an” rhodder “and to the appropriate agency an”;
- (c) yn is-baragraff (4)—
 - (i) yn lle'r geiriau o “made” hyd at “for a” rhodder “made to the appropriate agency for a”;
 - (ii) yn lle'r geiriau o “applicant” hyd at “end” rhodder “applicant and the appropriate agency, at the end”;
 - (iii) yn lle'r geiriau o “issued by” hyd at “accordance” rhodder “issued by the appropriate agency in accordance”;
 - (iv) yn lle'r geiriau o “as if” hyd at “had issued” rhodder “as if the appropriate agency had issued”.

(4) Ym mharagraff 6, yn lle'r geiriau o "paragraph 5" hyd at "or as" rhodder "paragraph 5 of this Schedule, the appropriate agency or as".

(5) Ar ôl paragraff 8 mewnosoder—

“**8A** In this Schedule, “the appropriate agency” means—

- (a) in relation to England, the Environment Agency;
- (b) in relation to Wales, the Natural Resources Body for Wales.”

39.—(1) Yn Atodlen 4, mae paragraff 5 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), yn lle'r geiriau o “undertakers” (yn y man cyntaf lle y mae'n digwydd) hyd at “provide” rhodder “undertakers, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, the gas transporter shall, if the statutory water undertakers, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales provide”.

(3) Yn is-baragraff (2), yn lle'r geiriau o “undertakers” hyd at “shall” rhodder “undertakers, the Environment Agency or the Natural Resources Body for Wales, the gas transporter shall”.

40.—(1) Yn Atodlen 6, mae paragraff 2(4) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau o “occupied by” hyd at “or by” rhodder “occupied by the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or by”.

(3) Yn lle'r geiriau o “imposed” hyd at “or, as” rhodder “imposed by the Environment Agency, by the Natural Resources Body for Wales or, as”.

Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (p. 57)

41.—(1) Yn adran 26(1) o Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965, mae'r diffiniad o “the appropriate Agency” wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (a), hepgorer “or Wales”.

(3) Ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(c) in the case of a site in Wales, the Natural Resources Body for Wales.”

Deddf Mwyngloddiau (Cyfleusterau Gweithio a Chynhaliaeth) 1966 (p. 4)

42. Yn adran 7A(4)(b)(i) o Ddeddf Mwyngloddiau (Cyfleusterau Gweithio a Chynhaliaeth) 1966, yn lle'r geiriau cyn “any” rhodder “the Environment Agency, the Natural Resources Body for Wales or”.

Deddf Iechyd Planhigion 1967 (p. 8)

43. Yn adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, yn lle paragraffau (a) a (b) rhodder—

“(a) for England and Scotland—

- (i) as regards the protection of forest trees and timber from attack by pests (“timber” for this purpose including all forest products), the Forestry Commissioners, and
- (ii) otherwise, for England, the Secretary of State and, for Scotland, the Scottish Ministers, and

(b) for Wales, the Welsh Ministers.”

Deddf Coedwigaeth 1967 (p. 10)

44. Mae Deddf Coedwigaeth 1967 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

45.—(1) Mae adran 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) In this Act, “the appropriate forestry authority” means—

(a) in relation to England and Scotland, the Commissioners;

(b) in relation to Wales, the Natural Resources Body for Wales.”

(3) Yn is-adran (2)—

(a) yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority”;

(b) yn lle “and in England and Wales” rhodder “in England and in Wales”.

(4) Yn is-adran (3)—

(a) yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority's”;

(b) yn lle “and in England and Wales” rhodder “in England and in Wales”.

(5) Yn is-adran (3A)—

(a) hepgorer “under the Forestry Acts 1967 to 1979”;

(b) yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority”.

(6) Ar ôl is-adran (3A) mewnosoder—

“(3B) In subsection (3A) “functions” means—

(a) in relation to the Commissioners, functions under the Forestry Acts 1967 to 1979;

(b) in relation to the Natural Resources Body for Wales, functions under this Act.”

(7) Yn is-adran (4)(a), hepgorer “and Wales”.

(8) Hepgorer is-adran (5).

(9) Yn is-adran (6), yn lle “Great Britain” rhodder “England and Scotland”.

46.—(1) Mae adran 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)—

(a) yn lle “Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate forestry authority”;

(b) yn lle “England and Wales” rhodder “England or Wales”;

(c) yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority's”.

(3) Yn is-adran (2), yn lle “Commissioners”, yn y man cyntaf lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate forestry authority”.

(4) Yn is-adran (3), yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority”.

47.—(1) Mae adrannau 5(1) a (2) a 6 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle “Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate forestry authority”.

(3) Yn lle “England and Wales” ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “England or Wales”.

48. Yn adran 7, yn lle “Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate forestry authority”.

49. Yn adran 7A(1), hepgorer “and Wales”.

50. Yn adran 8(1)(c), yn lle “and in England and Wales” rhodder “in England and in Wales”.

51. Yn adran 8A, yn lle “England and Wales” rhodder “England or (as the case may be) Wales”.

52. Ym mhennawd Rhan 2, hepgorer “Commissioners”.

53.—(1) Mae adran 9 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority”.

(3) Yn is-adran (3)(b)—

(a) yn is-baragraff (i), ar ôl “which are felled” mewnosoder “in the relevant territory”;

(b) yn is-baragraff (ii), yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate forestry authority”.

(4) Yn is-adran (5), yn lle “Commissioners” rhodder “appropriate legislative authority”.

(5) Yn is-adran (6), ar ôl y diffiniad o “quarter” mewnosoder—

““relevant territory” means—

(a) England and Scotland where the felling is carried out in England or Scotland;

(b) Wales where the felling is carried out in Wales;”.

54.—(1) Mae adran 10 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle “Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (gan gynnwys yn y pennawd), rhodder “appropriate forestry authority”.

(3) Yn is-adran (4)(b), yn lle “England and Wales” rhodder “England or Wales”.

55. Yn adrannau 11 i 13, yn lle “Commissioners”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate forestry authority”.

56.—(1) Mae adran 14 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

